CYSTADLAETHAU LLÊN

Rhyddiaith - Eisteddfod Y Fenni 2020? (dim mwy na 1,000 o eiriau)

1. J Williams, Abergwaun (Siôn)
2. T Graham Williams, Cwm Tawe (Oracle)
3. T Graham Williams, Cwm Tawe (Gwerinwr)

Nifer o ymgeiswyr: 3

Sylwadau'r beirniad
Daeth tri ymgeisydd i'r gystadleuaeth a rhaid canmol y tri am lunio darnau meddylgar a manwl mewn Cymraeg digon graenus. Wrth feirniadu, ystyriwyd dwy agwedd ym mhob ymgais, sef safon yr iaith a'r cynnwys. Ychydig iawn oedd rhwng y tri ymgeisydd. Oracle oedd â'r sglein mwyaf ar yr iaith, ond Siôn a luniodd y darn mwyaf perthnasol i deitl y gystadleuaeth.

Cerdd i ddysgwyr – ar y thema Y Dosbarth Cymraeg

1af ac 2il Margaret Jones- Robinson (B-y-B a Pererin)

Dim ond dau gynnig a dderbyniwyd, ond roess safon iaith ac arddull y ddwy gerdd yn ganmoladwy iawn.

Limrig – Wrth fyned un dydd i'r Cynulliad.....

1. J Williams, Abergwaun (Aled 2)
2. Catherine Sorensen, Llanfrynach (Atgof)
3. Catherine Sorenses, Llanfrynach (Nat)

Nifer o ymgeiswyr: 8

Sylwadau'r beirniad
Roedd disgwyl i'r ymgeiswyr gadw at ffurf y limrig gyda'r rhythm a'r patrwm odli pendant, a chynnwys ergyd yn y llinell glo. Mae hiwmor mewn limrig yn arferol, er nid yn angenrheidiol, ond yn sicr mae'n help i godi calon y beirniad!

1af (Aled 2)
Wrth fyned un dydd i'r Cynulliad
Mi welais sawl un yn gwneud safiad
Am hawliau pob dyn
A phawb yn gytun
Bod angen y fath ymarferiad

2il (Atgof)

Wrth fyned un dydd i'r Cynulliad
Ar balmant fe gefais ysgytiad
Hen ŵr a'i ffliwt yn hudo
A'r milgi yn ei wylio
Cefais sioc, hwn oedd fy hen gariad!

3ydd (Nat)
Wrth fyned un dydd i'r Cynulliad.....
Fe faglais wrth ddrws yr adeilad
Ar garlam daeth Rhodri
Ac eraill yn helpu
Dyna'r fan lle cwympais mewn cariad.